RHEOLAU PYSGOTA YMDDIRIEDOLAETH DYFFRYN MAES GLAS

RHEOLAU

1. Dim ond ar Bwll y Felin Flawd y caniateir pysgota. Ni chaniateir pysgota y tu draw i Wal y Gored.
2. Dim ond pysgota â gwialen a lein a ganiateir.
3. Caniateir pysgota rhwng 8am a chyfnos yn unig.
4. DIM PYSGOTA GYDA'R NOS.
5. Rhaid i bob pysgotwr gael Trwydded gyfredol Asiantaeth yr Amgylchedd (ac eithrio ieuenctid iau na 12 oed).

COD YMDDYGIAD

6. Rhaid i bob pysgotwr ddangos cwrteisi priodol at bysgotwyr a defnyddwyr eraill y Parc Treftadaeth, ac at drigolion yr anheddau sy'n ffinio â d_r.
7. Mae gan yr holl pysgotwr awdurdod i weithredu fel beilïaid dyfroedd ac i weithredu gyda gofal a sylw priodol i orfodi rheolau'r.
8. Ni chaniateir codi PEBYLL na GWERSYLLOEDD.
9. Ni chaniateir defnyddio setiau radio na theledu.
10. Rhaid roi unrhyw sbwriel a geir wrth ymyl eu peg yn y biniau a ddarparir.
11. Ni chaniateir yfed alcohol ar unrhyw amod. Bydd Tocyn Tymor unrhyw dramgwyddwyr yn cael ei dirymu.
12. Dim on y sawl a enwir ar y tocyn syn's cael defnyddio'r tocyn ac nid oes modd ei drosglyddo I neb arall.
13. Rhaid i bob pysgotwr gytuno i gadw at Bolisïau Iechyd a Diogelwch, Amddiffyn Plant a Chyfleoedd Cyfartal Ymddiriedolaeth Dyffryn Maes Glas.

IAU

14. Rhaid i iau gael caniatâd ysgrifenedig eu rhieni/gwarchodwyr i bysgota. Rhaid i rieni lofnodi'r cais am Tocyn Tymor i'r perwyl hwn.
15. Mae iau yn dod yn h_n pan fyddant yn 17 oed.
16. Rhaid i oedolyn cyfrifol (dros 16 oed) fod gyda phob aelod iau nag 8 oed, trwy gydol yr amser.

YMDDYGIAD WRTH BYSGOTA

17. Dwy wialen yw'r uchafswm y caniateir i unrhyw bysgotwr eu defnyddio ar unrhyw adeg. Ni chaniateir gadael bachau ag abwyd heb neb yn eu goruchwylio yn y d_r ar unrhyw adeg.
18. Dim ond bachau didagell y caniateir eu defnyddio ar unrhyw adeg.
19. Rhaid i bob pysgotwr gael rhwyd lanio ei hun.
20. Ni chaniateir cadw pysgod mewn rhwydi cadw yn hwy na 6 awr, a phan ollyngir pysgod rhaid sicrhau eu bod yn nofio drwy'r rhwyd yn ofalus. Rhaid i bob rhwyd fod yn 2.4 metr o hyd o leiaf. Ni chaniateir cadw BREMIAID a *SKIMMERS* mewn rhwydi cadw.
21. Rhaid rhoi unrhyw bysgod a ddalir yn nyfroedd y Clwb yn ôl yn fyw yn y d_r hwnnw.
22. Ni chaniateir defnyddio offer "*fixed lead*" na "*bott rigs*" ar dd_r y Clwb.
23. Rhaid defnyddio matiau dadfachu ar gyfer pysgota carp.

ABWYD

24. Nodir y cyfyngiadau abwyd ar Hysbysfwrdd wrth ymyl dyfroedd. Dylai pysgorwr sicrhau eu bod yn edrych i weld pa gyfyngiadau sy'n weithredol ar y dydd cyn dechrau pysgota.
25. Ni chaniateir beitio byw na defnyddio abwyd artiffisial.
26. Ni chaniateir defnyddio abwyd arnofiol.
27. Ni chaniateir defnyddio abwyd cnau na hadau.
28. Caniateir defnyddio *bolies* o siop, ond dim ond ar y cyd â *hookers*, *stringers* a bagiau *P.V.A*, ac eithrio india corn a chywarch sydd wedi'i goginio'n dda.

CYFRIFOLDEBAU AC AWDURDOD YMDDIRIEDOLAETH DYFFRYN MAESGLAS

29. Nid yw Ymddiriedolaeth Dyffryn Maesglas yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anaf personol a gaiff unrhyw unigolyn neu unigolion nac am unrhyw ddifrod a ddioddefant, nac am unrhyw eiddo personol a gollir ganddynt, mewn cysylltiad ag pysgota.
30. Rhaid i bob pysgotwr (â tocyn tymor a dydd) dderbyn y rheolau neu fe'u gwaharddir. Gwella pysgota lleol a'r amgylchfyd perthnasol yw prif nod Ymddiriedolaeth Dyffryn Maesglasac mae dyletswydd ar bob pysgotwr i wneud popeth o fewn eu gallu i gyflawni hynny.
31. Pwyllgor yr Ymddiriedoleth Dyffryn Maesglas fydd yn penderfynu ar unrhyw fater nad yw wedi'i gynnwys yn y rheolau hyn, a bydd ei benderfyniad yn derfynol ac yn gyfrwymol ar bob mater.
32. Bydd y d_r yn cael ei gau rhag ei bysgota am ddwy wythnos yn olynol bob blwyddyn, y pwyllgor fydd yn penderfynu ar ddyddiadau'r wythnosau hynny ac yn hysbysu'r o flaen llaw.
33. Mae dyletswydd gofal er mwyn sicrhau Iechyd, Diogelwch a'u Lles hwy eu hunain ar pysgotwr, yn enwedig o ran Clefyd Weil (Leptospirosis).